# Ffurflenni Ystadegol Blynyddol Gwasanaethau Tân ac Achub

## Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23

**Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth Cymru yn casglu'r data yma.**

Mae canllawiau wedi'u cynnwys i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language — Cymraeg/Welsh

**GWYBODAETH AM Y DARPARWR**

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared — Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

| | |
|---|---|
| Cofnodwch enw'r prif swyddog cyswllt sy'n ymwneud â'r ffurflen hon | |
| Cofnodwch rif ffôn y swyddog cyswllt yma | |
| Nodwch e-bost y swyddog cyswllt | |

**Dychwelwch y ffurflen trwy Afon cyn 09/06/2023**

www.afonwales.org.uk

Ebost: Casglu.Data@llyw.cymru


Canllawiau cyffredinol - Tablau 1 i 7

HRFW1: Swyddi llawn amser
HRFW2: Swyddi'r System ar Ddyletswydd yn ôl galw
HRFW3: Swyddi Ystafell Rheoli Tân
HRFW4a: Swyddi a Nerth Anweithredol
HRFW7: Salwch

Canllawiau cyffredinol - Tablau 80 a 86

HRFW80: Anafiadau yn ystod digwyddiadau
HRFW86: Ymddeoliadau o ganlyniad i salwch

Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon
Dilysiant
Canllawiau diffiniad gweithwr


ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn ôl at yr Hafan

## Ffurflenni Ystadegol Blynyddol Gwasanaethau Tân ac Achub

## Canllawiau cyffredinol ar sut i gwblhau'r ffurflen

**Byddwch yn gallu symud o daenlen i daenlen wrth glicio ar y ddolen briodol.**

Er enghraifft, cliciwch y ddolen i fynd i HRFW86 — HRFW86

Er enghraifft, cliciwch y ddolen 'Nôl i'r Hafan' i fynd yn ôl i'r hafan — Yn ôl at yr Hafan

**Eitemau Data Gofynnol**

Pan gewch y daenlen, lliwir y celloedd lle disgwylir i chi ddarparu eitemau data.
Lliwir holl gelloedd lle mae data yn ofynnol yn las golau

Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Lliwir y celloedd hyn gyda llwyd tywyll. Ni chaniateir i chi fewnosod data yn y celloedd hyn.

**Os nad ydych yn gallu darparu unrhyw eitem ddata, gadewch y gell YN WAG. Peidiwch â mewnosod unrhyw eiriau (Amherthnasol neu Heb eu casglu ayb) i unrhyw gell heblaw am y celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd yn ganiataol fod sero mewn unrhyw gell yn dynodi'r cyfrif sero am yr eitem ddata hon.**

Darparir lle gwag gwyn yn gyfagos i bob rhes ar bob tabl ar gyfer eich sylwadau ynglŷn â'r data ac ynglŷn ag absenoldeb data. Mae 'na le gwag gwyn hefyd ar waelod pob dalen ar gyfer sylwadau cyffredinol ynglŷn â'r ffurflenni.

**Dilysiad**

Dilysiad 1 — **V1**

Mae Dilysiad 1 yn cynnwys chwilio am wallau sylfaenol. Rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno’r daenlen trwy Afon.

Caiff eitemau data sy'n torri rheol dilysiad neu sydd heb eu cyflenwi eu lliwio'n goch. — **C**

Caiff eitemau data sydd ar goll gyda sylwadau sy'n esbonio eu habsenoldeb eu lliwio'n oren. — **M**

Caiff cofnodion data cyflawn sydd wedi cwrdd â'r rheolau dilysu eu lliwio'n wyrdd. — √

**Pwrpas:**

Ei nod yw egluro'r canllawiau ar fathau o gweithiwr i gynnwys o fewn y ffurflenni ystadegau gweithredol.

Dylid cynnwys personél yn y datganiadau os ydynt yn a) staff dros dro sy'n gyflogedig ers dros flwyddyn ar 31 Mawrth, b) ar gontractau tymor penodol sy'n gyflogedig ers dros flwyddyn ar 31 Mawrth, c) pobl ar secondiad, ond dim ond os mai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn talu eu cyflog. Y personél i'w heithrio yw a) staff asiantaeth, b) gweithwyr achlysurol sy'n gyflogedig ers llai na blwyddyn sy'n cyflenwi absenoldeb oherwydd salwch neu gyfnod mamolaeth, er enghraifft, ac c) y rheini a gyflogir gan gontractwyr allanol.

Dylid cyfrif personél sydd ar ddyrchafiad dros dro ar 31 Mawrth yn y rôl dros dro sydd ganddo ar y diwrnod hwnnw.

Os oes gan unrhyw bersonél ddwy swydd, dylid cyfrif ei brif swydd yn unig a'i chynnwys ar y datganiad oni bai bod modd nodi dadansoddiad canrannol clir.

At ddibenion casglu ystadegau gweithredol, mae'r diffiniadau canlynol yn cynnwys yr holl staff sy'n ymwneud â'r gwasanaeth tân ac achub:

Noder, nid yw teitl swydd gweithiwr o reidrwydd yn adlewyrchu ei fath o gyflogaeth.

| | |
|---|---|
| Categori A | Person a gyflogir ac a dalwyd gan y GTA (naill ai'n llawn neu'n rhannol) sydd ar gytundeb parhaol (nid cyfnod penodol) o wasanaeth. |
| Categori B | Person a gyflogir ac a dalwyd gan y GTA (naill ai'n llawn neu'n rhannol), sydd ddim ar gytundeb parhaol, ac mae ar gontract tymor penodol, neu gyfres o gontractau tymor penodol di-dor, o flwyddyn neu drosodd. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau penagored o flwyddyn neu drosodd i lenwi, er enghraifft, absenoldeb oherwydd salwch neu gyfnod mamolaeth. |
| Categori C | Secondiad, naill ai'n gweithio ar gyfer y GTA neu'n gweithio i sefydliad arall, lle y mae'r GTA yn talu eu cyflog, neu ad-dalu i'r sefydliad arall. |
| Categori D | Secondiad, naill ai'n gweithio ar gyfer y GTA neu'n gweithio i sefydliad arall, lle y mae'r GTA ddim yn talu eu cyflog, neu ad-dalu i'r sefydliad arall. |
| Categori E | Person a gyflogir ac a dalwyd gan y GTA (naill ai'n llawn neu'n rhannol) sydd ddim ar gytundeb parhaol, ond ar gytundeb cyfnod penodol o lai na blwyddyn. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau penagored o lai na blwyddyn i lenwi, er enghraifft, absenoldeb oherwydd salwch neu gyfnod mamolaeth. |
| Categori F | Mae person nad yw'n gyflogedig gan y GTA ac nid ar unrhyw fath o gytundeb gwasanaeth, ond pwy sy'n gweithio yn ôl y galw gan y GTA, ond sy'n cael ei gyflogi a'i dalu gan asiantaeth cyflogaeth neu gontractwr allanol ac nid yw ar gyflogres y GTA. |

Ar gyfer pob ffurf, un o'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

| | |
|---|---|
| Cynhwyswch categori A, B, a C; eithriwch categori D, E ac F | HRFW 1, 2, 3, 4a, 7 |
| Cynhwyswch categori A, B, C a E; eithriwch categori D ac F | HRFW 68 |
| Nid yw'r ffurflen yma'n cynnwys data gweithiwr. | HRFW 80 |

## Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon

Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

Yn ôl at yr Hafan

**Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.**

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Cynhwyswch amser sydd wedi'i dreulio ar weithgareddau yn darparu ac anfon y ffurflen hon, megis:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac
- Anfon y ffurflen i Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad trwy AFON.

| Gradd y staff | Oriau wedi'u cymryd | V1 |
|---|---|---|
| Band 1 (£11,500 - £19,999) | | ✘ |
| Band 2 (£20,000 - £26,999) | | ✘ |
| Band 3 (£27,000 - £33,999) | | ✘ |
| Band 4 (£34,000 - £53,999) | | ✘ |
| Band 5 (£54,000+) | | ✘ |

**Sylwadau**

**Dilysiant**

Yn ôl at yr Hafan

| | Dilysiad 1 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffurflen** | **Dim angen sylwad - Wedi pasio dilysiant (√)** | **Data ar goll gyda sylwad** | **Dim data / Torri rheol dilysu** | **Cyfanswm** | **Canran sydd wedi pasio dilysiant** |
| **Cyfanswm** | **6** | **0** | **30** | **36** | **17%** |
| HRFW1 | 1 | 0 | 7 | 8 | **13%** |
| HRFW2 | 1 | 0 | 5 | 6 | **17%** |
| HRFW3 | 1 | 0 | 5 | 6 | **17%** |
| HRFW4a | 1 | 0 | 4 | 5 | **20%** |
| HRFW7 | 1 | 0 | 2 | 3 | **33%** |
| HRF80 | 0 | 0 | 3 | 3 | **0%** |
| HRF86 | 1 | 0 | 4 | 5 | **20%** |

Yn ôl at yr Hafan

## Arweiniad Cyffredinol - Tablau 1 i 7

**HRFW1 – Swyddi amser cyflawn**

● Swyddi – dyma nifer y swyddi parhaol yn y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA). Byddai o gymorth pe bai nodyn esboniadol yn cael ei roi gydag unrhyw newidiadau i’r ffigyrau o’r flwyddyn flaenorol.

● Nifer – dyma wir nifer y swyddi parhaol oedd yn llawn ar 31 Mawrth. Dylai personél sydd wedi cael eu dyrchafu dros dro ar 31 Mawrth gael eu cyfrif yn y rôl dros dro sydd ganddynt ar y diwrnod hwnnw.

● Cyfrif pennau – dyma wir nifer y gweithwyr, boed yn rhai amser llawn neu ran-amser, sy'n llenwi'r swyddi parhaol yn gywir ar 31 Mawrth.

● Corfforaethol – bydd hyn yn cynnwys yr holl bersonél sy'n bennaf yn hyfforddi, ac ymgymryd â swyddogaethau corfforaethol, gan gynnwys y rheini sy'n gweithio yn y pencadlys. Dylai corfforaethol gynnwys holl staff y llyfr llwyd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y colofnau gweithredol na Diogelwch Tân.

● Diogelwch Tân (Busnes a Chymuned) – bydd hyn yn cynnwys personél sy'n bennaf yn cynnal archwiliadau ac archwiliadau o safleoedd o dan Orchymyn Diogelwch Tân 2005 neu bersonél sy'n bennaf yn cynllunio a darparu diogelwch tân cymunedol a rhoi cyngor diogelwch cymunedol ehangach.

● Gweithredol – bydd hyn yn cynnwys personél sy'n bennaf yn darparu ymateb brys i ddigwyddiad.

● Lle bo gan bersonél fwy nag un rôl, dylid ei gofnodi o dan ei brif rôl yn unig (oni bai bod modd rhannu rôl yn glir o ran canran). Er enghraifft, lle bo staff yn gweithio mewn swyddogaeth gorfforaethol ond eu bod hefyd yn cyflenwi "ar alwad" megis rheoli digwyddiadau, dylid eu cofnodi unwaith yn unig, yn eu prif rôl.

● Dylid nodi pob ffigur, ac eithrio Cyfrif Pennau, fel ffigurau cyfwerth ag amser llawn.

**HRFW2 – Swyddi yn ôl y galw**

● Defnyddir y wybodaeth hon i ganfod a yw nifer y personél system ar ddyletswydd yn ôl galw’n ddigon i gyflawni’r ymrwymiadau gweithredol.

● Swyddi yn ôl y galw mewn unedau gweithio 24-awr – os yw hyn wedi newid ers y flwyddyn flaenorol, yna byddai o gymorth pe bai nodyn esboniadol yn cael ei roi.

● Cyfanswm cyfrif pennau personél – y gwir nifer o bersonél y system ar ddyletswydd yn ôl galw ar 31 Mawrth, fel gwir niferoedd ac yna'u cyfrifo yn ôl unedau 24 awr. Dylid cyfrif personél sydd ar ddyrchafiad dros dro ar 31 Mawrth yn y rôl dros dro sydd ganddo ar y diwrnod hwnnw.

● Cyfanswm nifer colofn b, sy'n bersonél llawn amser ar gontract deuol – cyfanswm nifer y personél sydd wedi'u cyflogi ar gontractau'r system ar ddyletswydd yn ôl galw a chontractau llawn amser yn yr un Awdurdod Tân ac Achub (byddai'r elfen llawn amser hefyd yn cael ei adlewyrchu yn HRFW1). Ni ddylid nodi'r personél hynny sy'n cyflenwi ar gyfer y system ar ddyletswydd yn ôl galw sydd hefyd â chontract llawn amser gyda Gwasanaeth Tân ac Achub arall (neu fel arall) fel personél â chontract deuol.

● Cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr – nifer y personél (cyfrif pennau) sy'n cynorthwyo'r Gwasanaeth Tân ac Achub ond nad yw'n cael ei gyflogi ganddo.

**HRFW3 – Swyddi rheoli tân**

● Dylid cynnwys pawb sydd mewn rôl rheoli tân ar 31 Mawrth. Golyga hyn y dylech nid yn unig gyfrif y rheini sy'n delio â galwadau, sy'n gweithredu neu'n rhan o weithgareddau perthnasol ac yn eu rheoli, ond hefyd eraill sydd wedi'u datgysylltu i adrannau personél neu sy'n ymgymryd â phrosiectau arbennig.

● Swyddi – dyma nifer y swyddi parhaol yn y Gwasanaeth Tân ac Achub. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai nodyn eglurhad yn cael ei roi gydag unrhyw newid o'r flwyddyn flaenorol.

**HRFW4a – Swyddi anweithredol**

● Swyddi – Dylid cynnwys pob swydd anweithredol (llyfr gwyrdd) ar 31 Mawrth. Dyma'r ffigur a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub fel nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn y mae angen eu llenwi er mwyn cyflawni swyddogaethau cefnogi'r awdurdod. Bydd personél anweithredol amser llawn yn gweithio tua 220-230 o ddiwrnodau.

● Nerth – dyma wir nifer y swyddi parhaol wedi'u llenwi ar 31 Mawrth. Dylid cyfrif personél sydd ar ddyrchafiad dros dro ar 31 Mawrth yn y rôl dros dro sydd ganddo ar y diwrnod hwnnw.

● Cyfrif pennau – dyma wir nifer y gweithwyr, boed yn rhai amser llawn neu ran-amser, sy'n llenwi'r swyddi parhaol yn gywir ar 31 Mawrth.

Yn ôl at yr Hafan

## Arweiniad Cyffredinol - Tablau 1 i 7

**HRFW1 – Swyddi amser cyflawn**

● Dylid cofnodi data yn seiliedig ar y cyflog cyfwerth ar gyfer graddau gweithredol. Er enghraifft, dylid cofnodi aelod o staff anweithredol sy'n ennill hyd at gyfwerth y band cyflog uchaf ar gyfer diffoddwr tân (cymwys) yn llinell diffoddwyr tân y datganiad. Dylid cofnodi aelodau staff anweithredol sy'n ennill cyflog uwch na'r band uchaf ar gyfer diffoddwr tân a hyd at y band cyflog uchaf ar gyfer rheolwr gwylfa (cymwys B) yn llinell rheolwr goruchwylio y datganiad ac ati.

● Corfforaethol – bydd hyn yn cynnwys yr holl bersonél sy'n bennaf yn hyfforddi, ymgymryd â swyddogaethau corfforaethol, a'r Pencadlys.

● Diogelwch Tân (Busnes a Chymuned) – bydd hyn yn cynnwys personél sy'n bennaf yn cynnal archwiliadau ac archwiliadau o safleoedd o dan Orchymyn Diogelwch Tân 2005 neu bersonél sy'n bennaf yn cynllunio a darparu diogelwch tân cymunedol a rhoi cyngor diogelwch cymunedol ehangach.

● Lle bo gan bersonél fwy nag un rôl, dylid ei gofnodi o dan ei brif rôl yn unig (oni bai bod modd rhannu rôl yn glir o ran canran). Er enghraifft, lle bo staff yn gweithio mewn swyddogaeth gorfforaethol ond eu bod hefyd yn cyflenwi "ar alwad" megis rheoli digwyddiadau, dylid eu cofnodi unwaith yn unig, yn eu prif rôl.

**HRFW4b – Y 5% sy'n ennill y mwyaf - Ni chaiff ei gasglu rhagor.**

**HRFW7 – Shifftiau/dyddiau a gollwyd oherwydd salwch**

● Mae'r ffurflen hon yn cynnwys y wybodaeth mae ei hangen i gyhoeddi'r rhifiaduron ar gyfer dangosydd perfformiad FRS/CHR/C/004.

● Mae tymor byr yn golygu cyfnodau parhaus unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai.
● Mae tymor hir yn golygu cyfnodau parhaus unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.
● Pan fo unigolyn wedi bod ar absenoldeb oherwydd salwch am 28 diwrnod neu fwy, rhaid cofnodi bod eu salwch yn gyfan gwbl yn absenoldeb salwch hirdymor.
● Dylid cofnodi pob salwch hirdymor yn yr ail res ac nid y rhan gyntaf ohono yn y rhes gyntaf (h.y. y 28 diwrnod cyntaf ohono).

● Dylid cynnwys personél yn y ffurflen os ydynt yn gweithio cyfnod o rybudd, ond yn cyflwyno tystysgrifau meddygol sy'n cynnwys y cyfnod o rybudd.

● Dylid cynnwys pob patrwm shifft mewn diwrnod 24-awr, gan ddechrau am hanner nos, pan fo shifft gwaith i fod i ddechrau. Er enghraifft, i staff ar ddyletswydd hyblyg, gall shifft fod yn ddiwrnod dyletswydd 24-awr neu'n ddiwrnod dyletswydd 8-awr.

● Cofnodwch gyfanswm nifer y dyddiau/shifftiau a gollwyd ar gyfer pob categori o salwch ar gyfer yr holl bersonél yn y golofn honno. Y ffigyrau y dylid eu cofnodi ar y rhes berthnasol yw'r dyddiau/shifftiau gweithio a gollwyd mewn gwirionedd ac ni ddylid cynnwys unrhyw ddyddiau rota sy'n rhan o'r cyfnod o salwch.

● Dylai staff rhan-amser a staff rhannu swydd gael eu cofnodi mewn shifftiau cyfwerth ag amser llawn yn eu categori cyflogai perthnasol, h.y. dylid adio cyfansymiau cronnus rhannau o shifftiau gyda'i gilydd a'u hysbysu fel shifftiau llawn a gollwyd ar sail y patrwm gwaith cyfartalog yn y categori cyflogai perthnasol.

● Enghraifft: i gyflogai anweithredol sy'n gweithio 3 awr y dydd ar amodau a chyflog 37 awr pro rata, oedd yn sâl am gyfnod oedd yn cynnwys pum diwrnod calendr pan fyddai fel arfer yn gweithio:

Mae cyflogai amser llawn yn gweithio 37 awr yr wythnos, sef oddeutu 7.5 awr y dydd.

Mae'r cyflogai rhan-amser yn sâl am bum shifft 3-awr 3x5=15 awr o absenoldeb salwch i gyd.

Cyfrifir nifer y dyddiau o 15/7.5 = 2.  Byddai'n colli dau ddiwrnod cyfwerth ag amser llawn i salwch.

● Yn achos cyflogai sy'n dweud ei fod yn sâl rhan o'r ffordd trwy ddiwrnod/shifft gwaith, dylid cofnodi'r wybodaeth i'r hanner diwrnod/shifft agosaf.

**HRFW1**
**Swyddi llawn amser**

Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23
Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

Yn ôl at yr Hafan

HRFW2

| 2022-23 | Cyfanswm | | | Corfforaethol | | Diogelwch Tân (Busnes a Chymuned) | | Gweithredol | | V1 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swyddi | Nerth | Cyfrif pennau | Swyddi | Nerth | Swyddi | Nerth | Swyddi | Nerth | | |
| Rheolwr y Frigâd | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | C | |
| Rheolwr Ardal | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | C | |
| Rheolwr y Grŵp | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | C | |
| Rheolwr yr Orsaf | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | C | |
| Rheolwr y Daliad | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | C | |
| Rheolwr y Criw | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | C | |
| Ymladdwr Tân | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | C | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | √ | |

| 2021-22 | Cyfanswm | | | Corfforaethol | | Diogelwch Tân (Busnes a Chymuned) | | Gweithredol | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swyddi | Nerth | Cyfrif pennau | Swyddi | Nerth | Swyddi | Nerth | Swyddi | Nerth | |
| | 1 | 2 | 25 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | |
| Rheolwr y Frigâd | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | |
| Rheolwr Ardal | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | |
| Rheolwr y Grŵp | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | |
| Rheolwr yr Orsaf | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | |
| Rheolwr y Daliad | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | |
| Rheolwr y Criw | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | |
| Ymladdwr Tân | 0.00 | 0.00 | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

Sylwadau

**HRFW2**

**Swyddi System ar Ddyletswydd yn ôl galw (gan gynnwys staff llawn amser ar gontract deuol i gyflenwi'r System)**



| 2022-23 | a<br>Swyddi Rhan amser mewn unedau cyflenwad 24 awr | b<br>Cyfanswm Cyfrif Pennau Personél | c<br>Cyfanswm nifer colofn b, sy'n bersonél llawn amser ar gontract deuol | d<br>Cyfanswm nerth rhan amser mewn unedau cyflenwad 24 awr | e<br>Nifer o wirfoddolwyr | V1 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwr y Grŵp | | | | | | C | |
| Rheolwr yr Orsaf | | | | | | C | |
| Rheolwr y Daliad | | | | | | C | |
| Rheolwr y Criw | | | | | | C | |
| Ymladdwr Tân | | | | | | C | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | √ | |

| 2021-22 | a<br>Swyddi Rhan amser mewn unedau cyflenwad 24 awr | b<br>Cyfanswm Cyfrif Pennau Personél | c<br>Cyfanswm nifer colofn b, sy'n bersonél llawn amser ar gontract deuol | d<br>Cyfanswm nerth rhan amser mewn unedau cyflenwad 24 awr | e<br>Nifer o wirfoddolwyr | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwr y Grŵp | | | | | | |
| Rheolwr yr Orsaf | | | | | | |
| Rheolwr y Daliad | | | | | | |
| Rheolwr y Criw | | | | | | |
| Ymladdwr Tân | | | | | | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

Sylwadau

**HRFW3**

**Swyddi Ystafell Rheoli Tân**

Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23
Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared
Yn ôl at yr Hafan

HRFW4a

| 2022-23 | Llawn amser | | | V1 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Swyddi | Nerth | Cyfrif pennau | | |
| Rheolwr y Grŵp (Ystafell Rheoli) | | | | C | |
| Rheolwr yr Orsaf (Ystafell Rheoli) | | | | C | |
| Rheolwr y Daliad (Ystafell Rheoli) | | | | C | |
| Rheolwr y Criw (Ystafell Rheoli) | | | | C | |
| Ymladdwr Tân (Ystafell Rheoli) | | | | C | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | √ | |

| 2021-22 | Llawn amser | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | Swyddi | Nerth | Cyfrif pennau | |
| Rheolwr y Grŵp (Ystafell Rheoli) | | | | |
| Rheolwr yr Orsaf (Ystafell Rheoli) | | | | |
| Rheolwr y Daliad (Ystafell Rheoli) | | | | |
| Rheolwr y Criw (Ystafell Rheoli) | | | | |
| Ymladdwr Tân (Ystafell Rheoli) | | | | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

Sylwadau

**HRFW4**

**Swyddi a nerth anweithredol ar 31 Mawrth**

Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

Yn ôl at yr Hafan

HRFW7

| Math o system dyletswydd | Cyfanswm | | | Corfforaethol | | Diogelwch Tân (Busnes a Chymuned) | | V1 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Swyddi | Nerth | Cyfrif pennau | Swyddi | Nerth | Swyddi | Nerth | | |
| **2022-23** | | | | | | | | | |
| Rheolwr strategol | 0.00 | 0.00 | | | | | | C | |
| Rheolwr canol | 0.00 | 0.00 | | | | | | C | |
| Rheolwr goruchwyliol | 0.00 | 0.00 | | | | | | C | |
| Ymladdwr Tân | 0.00 | 0.00 | | | | | | C | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | √ | |
| | 1 | 2 | 25 | 15 | 16 | 17 | 18 | | |
| **2021-22** | | | | | | | | | |
| Rheolwr strategol | | | | | | | | | |
| Rheolwr canol | | | | | | | | | |
| Rheolwr goruchwyliol | | | | | | | | | |
| Ymladdwr Tân | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | | |

Sylwadau

**HRFW7**

**Iechyd a Diogelwch**

**Sifftiau/dyddiadau wedi colli oherwydd salwch**

Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

Yn ôl at yr Hafan

HRFW80

| **2022-23** | **Llawn amser** | **Ystafell Rheoli Tân** | **Anweithredol** | **V1** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o sifftiau/dyddiadau wedi colli oherwydd salwch tymor byr | | | | C | |
| Nifer o sifftiau/dyddiadau wedi colli oherwydd salwch hirdymor | | | | C | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | √ | |

| **2021-22** | **Llawn amser** | **Ystafell Rheoli Tân** | **Anweithredol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o sifftiau/dyddiadau wedi colli oherwydd salwch tymor byr | | | | |
| Nifer o sifftiau/dyddiadau wedi colli oherwydd salwch hirdymor | | | | |
| **Cyfanswm** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

Sylwadau

Yn ôl at yr Hafan

## Arweiniad Cyffredinol - Tablau 80 i 86

### HRFW80 – Anafiadau i Staff Gweithredol yn ystod Digwyddiadau Gweithredol a Hyfforddiant

● Mae digwyddiadau gweithredol a hyfforddiant yn cyfeirio at ddigwyddiadau gweithredol (tanau, digwyddiadau'r gwasanaeth arbennig a galwadau tân diangen), hyfforddiant ar gyfer digwyddiadau gweithredol, ac ymgymryd â gweithgareddau gweithredol eraill (paratoi i weithredu ac ymarferion ar y cyd).

● Mae colofn a) yn cyfeirio at gyfanswm nifer y digwyddiadau lle bu anaf. Dylid gwneud un cofnod ar gyfer pob digwyddiad hyd yn oed os bu mwy nag un anaf yn ystod y digwyddiad hwnnw.

● Mae colofn b) yn cyfeirio at anafiadau adroddadwy RIDDOR (Rheoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus). Caiff y rhain eu diffinio yn RIDDOR 2013 ac maent yn cynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) anafiadau "hwy na 7 diwrnod".

● Cyfanswm nifer y personél a anafwyd mewn digwyddiadau adroddadwy – cyfrwch yr holl anafiadau a achoswyd yn ystod digwyddiadau gweithredol a hyfforddiant gweithredol. Dylech gyfrif amryfal anafiadau a achoswyd yn ystod un digwyddiad fel un anaf. Dylech gyfrif nifer y bobl sydd wedi'u hanafu yn hytrach na'r anafiadau, h.y. braich a choes wedi torri = 1 anaf.

● Dylai'r data gynnwys recriwtiaid llawn amser neu i'r system ar ddyletswydd yn ôl galw sydd dan hyfforddiant.

● Mae angen cynnwys anafiadau a achoswyd wrth ymateb i ddigwyddiadau (e.e. staff wrth gefn ar y ffordd i'r orsaf dân) yn HRFW80. Os digwydd anaf wrth ddychwelyd o ddigwyddiad, dylid cynnwys hyn yn HRFW80. Ystyrir bod y digwyddiad yn parhau tan i'r unigolyn gyrraedd yn ôl i'r orsaf neu, os yw'n mynd yn uniongyrchol i ymgymryd â dyletswyddau eraill megis profi hydrantau neu hyfforddiant, yna tan i'r gweithgarwch hwnnw ddechrau.

● Dylid cynnwys anafiadau sy'n digwydd yn ystod hyfforddiant ffitrwydd.

### HRFW86 – Ymddeoliadau ar sail afiechyd

Dyma gyfanswm y nifer sy'n ymddeol oherwydd salwch yn y flwyddyn. Lle nad oes penderfyniad wedi'i wneud am achos ar ddiwedd y flwyddyn, peidiwch â'i gofnodi yn y cyfanswm. Dylai gael ei gofnodi o dan 'achosion heb benderfyniad ar ddiwedd y flwyddyn' yn unig.

Ystyr "ymddeol oherwydd salwch" yw lle bo diffoddwr tân yn ymddeol o'r Gwasanaeth a'i fod yn gymwys am bensiwn uniongyrchol (heb ei ohirio) am resymau iechyd. Nid yw'n cynnwys achosion lle mae'r diffoddwr tân yn gadael y gwasanaeth (am unrhyw reswm) ond nad yw'n gymwys am bensiwn o'r fath.

**HRFW80**

Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23

**Iechyd a Diogelwch**

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

**Anafiadau i Staff Gweithredol yn ystod Digwyddiadau Gweithredol a Hyfforddiant**

Yn ôl at yr Hafan

HRFW86

**Yn ystod digwyddiadau gweithredol**

| 2022-23 | Tân , Digwyddiadau Gwasanaethau Arbennig a digwyddiadau hyfforddi | RIDDOR adroddadwy | Cyfanswm nifer y personél a anafwyd | V1 | Sylwad |
|---|---|---|---|---|---|
| Llawn Amser | | | | C | |
| Rhan Amser | | | | C | |
| Gwirfoddol | | | | C | |

RIDDOR = Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus

| 2021-22 | Tân , Digwyddiadau Gwasanaethau Arbennig a digwyddiadau hyfforddi | RIDDOR adroddadwy | Cyfanswm nifer y personél a anafwyd | Sylwad |
|---|---|---|---|---|
| Llawn Amser | | | | |
| Rhan Amser | | | | |
| Gwirfoddol | | | | |

Sylwad

**HRFW86**

**Iechyd a Diogelwch**

***Ymddeoliadau o ganlyniad i salwch***

Ffurflenni Adnoddau Dynol (HRFW) 2022 - 23

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

Yn ôl at yr Hafan

**2022-23**

| | **Dynion** | **Merched** | **V1** | **Sylwad** |
|---|---|---|---|---|
| Llawn Amser | | | C | |
| Rhan Amser | | | C | |
| Ystafell Rheoli Tân | | | C | |
| Anweithredol | | | C | |
| Cyfanswm | 0 | 0 | √ | |

**2021-22**

| | **Dynion** | **Merched** | **Sylwad** |
|---|---|---|---|
| Llawn Amser | | | |
| Rhan Amser | | | |
| Ystafell Rheoli Tân | | | |
| Anweithredol | | | |
| Cyfanswm | 0 | 0 | |

Sylwadau